# CYNGOR GWYNEDD

# CYD-ASTUDIAETH ARGAELEDD TIR AR GYFER TAI 2013

**RHWNG ACLI CYNGOR GWYNEDD A'R GRŴP ASTUDIAETH:**

**FFEDERASIWN ADEILADWYR TAI**
**DŴR CYMRU**
**CYFOETH NATURIOL CYMRU**
**HWYLUSYDD TAI GWLEDIG GWYNEDD**
**CYMDEITHAS TAI GOGLEDD CYMRU**
**TAI ERYRI (BELLACH YN RHAN O GRWP CYNEFIN)**

**DYDDIAD CYHOEDDI: MEDI 2014**

**CYNNWYS**

1. Crynodeb

2. Cyflenwad Tir ar gyfer Tai

3. Sylwebaeth

4. Data monitro

Atodiad 1 – Atodlenni Safle

Atodiad 2 – Data Unedau wedi'i Cwblhau yn y Gorffennol

Atodiad 3 – Data Cyflenwad Tir Blaenorol

Atodiad 4 – Argymhelliad yr Arolygydd

## 1.0 CRYNODEB

1.1 Dyma Gyd-Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (JHLAS) Cyngor Gwynedd 2013 sy’n cyflwyno’r cyflenwad tir ar gyfer tai ar gyfer yr ardal ar y dyddiad sail, sef 1 Ebrill 2013. Mae’r adroddiad hwn yn disodli’r adroddiad ar gyfer y dyddiad blaenorol o 2012.

1.2 Paratowyd y JHLAS yn unol â gofynion Polisi Cynllunio Cymru, Nodyn Cyngor Technegol 1 (NCT 1) a'r Nodyn Canllaw ar y broses JHLAS (Medi 2012). Cyfeiriwch at y dogfennau hyn am fanylion ynghylch y gofynion i gynnal cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai ym mhob ardal Awdurdod Cynllunio Lleol a’r broses o ran ymgymryd â JHLAS.

NCT 1:

http://wales.gov.uk/desh/publications/planning/technicaladvicenotes/tan1/tan1w.pdf?lang=cy

Nodyn Canllaw – Proses yr Astudiaeth ar y Cyd ar Argaeledd Tir ar gyfer Tai:

http://wales.gov.uk/docs/desh/publications/120919jhlasguidancenoteen.pdf

1.3 Amlinellir manylion y cyflenwad o dir ar gyfer tai a sut y’i cyfrifwyd yn adran 2. Yn seiliedig ar y dull gweddilliol a nodir yn NCT 1, dengys bod gan Gyngor Gwynedd gyflenwad 4.5 mlynedd o dir ar gyfer tai.

### Cyswllt

1.4 Aseswyd y cyflenwad o dir ar gyfer tai mewn ymgynghoriad â:

- Ffederasiwn Adeiladwyr Tai (HBF)
- Dŵr Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Hwylusydd Tai Gwledig Gwynedd
- Cymdeithas Tai Gogledd Cymru
- Tai Eryri (bellach yn rhan o Grwp Cynefin)

### Cynhyrchu adroddiad

1.5 Cyhoeddodd Cyngor Gwynedd atodlenni safleoedd a profformâu safleoedd ar gyfer yr astudiaeth JHLAS 2013 ar gyfer ymgynghoriad rhwng 20fed Tachwedd a 13eg Rhagfyr 2013. Oherwydd bod materion cynhennus rhwng Cyngor Gwynedd a HBF yn dilyn yr ymgynghoriad cychwynnol mewn perthynas â rhai

o'r manylion a nodwyd yn yr atodlen safleoedd, cynhaliwyd cyfnod ymgynghori pellach gyda'r HBF rhwng 7fed Chwefror a 17eg Chwefror, 2014. Yn dilyn hynny, paratowyd Datganiad Tir Cyffredin (DTC) yn nodi'r safleoedd cynhennus ac fe'i cyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad ar 3ydd Mawrth 2014. Yn dilyn hynny, paratowyd Datganiad Tir Cyffredin (DTC) terfynol ac fe'i cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar 26ain Mawrth, 2014.

1.6 Roedd hi'n angenrheidiol i Arolygydd Cynllunio penodedig ddatrys nifer o faterion cynhennus oherwydd na lwyddodd pob parti i gytuno ar y manylion o fewn yr atodlen safle yn ystod cyfnod y DTC.

1.7 Yn dilyn hynny, gwnaeth yr Arolygydd Cynllunio a benodwyd argymhelliad i Lywodraeth Cymru ynghylch cyflenwad tir ar gyfer tai (Atodiad 4) gan gynnwys argymhellion ar y materion cynhennus. O ganlyniad i argymhellion yr Arolygydd Cynllunio, a ystyriwyd hefyd gan Lywodraeth Cymru, nid oedd angen unrhyw ddiwygiadau i'r atodlenni safle sy'n ynghlwm â'r adroddiad hwn.

## 2.0 Y CYFLENWAD TIR AR GYFER TAI

2.1 Mae'r cyflenwad tir pum mlynedd yn cynnwys safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio (amlinellol neu lawn) a safleoedd sydd wedi'i dynodi ar gyfer tai mewn cynlluniau datblygu a fabwysiadwyd, wedi'i categoreiddio fel y nodir yn NCT 1.

2.2 Mae'r cyflenwad tir wedi cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio'r fethodoleg weddilliol, yn seiliedig ar Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd (CDUG) 2001-16 a fabwysiadwyd ar 16eg Gorffennaf, 2009.

**Tabl 1 – Cyflenwad Tir ar gyfer Tai sydd wedi'i nodi**

| **Cyflenwad Tir ar gyfer Tai 1 Ebrill 2013 - 2018 – Safleoedd Mawr** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyflenwad Tir 5 Mlynedd (Categorïau NCT 1) | | | | Ymhellach na 5 Mlynedd | | |
| | Cartrefi arfaethedig | Wrthi yn cael eu hadeiladu | **1** | **2** | **2*** | **3(i)** | **3(ii)** | Cartrefi wedi'u cwblhau ers yr astudiaeth ddiwethaf |
| **Cyfan swm** | 2661 | 155 | 73 | 1584 | 0 | 838 | 11 | 92 |

2.3 Dadansoddiad o'r cyflenwad tir pum mlynedd (h.y. Categorïau 1, 2, 2* ac Wrthi yn cael eu hadeiladu):

| | |
|---|---|
| Preifat | 1669 |
| Cyhoeddus | 85 |
| Cymdeithasau Tai | 58 |
| **Cyfanswm** | 1812 |

2.4 **Cyflenwad Safleoedd Bychan** – mae'r cyfraniad o safleoedd bach o lai na 5 o dai yn seiliedig ar y tai a gwblhawyd yn y pum mlynedd diwethaf.

**Tabl 2 – Safleoedd Bychan a Gwblhawyd dros y 5 mlynedd flaenorol**

| 2008-2009 | 2009-2010 | 2010-2011 | 2011-2012 | 2012-2013 | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| 130 | 72 | 66 | 74 | 79 | 421 |

2.5 **Cyfanswm y cyflenwad tir 5 mlynedd** (safleoedd mawr a bychan) yw **2233** (1812 + 421).

**Tabl 3 – Cyfrifiad y Cyflenwad Tir 5 Mlynedd (Dull Gweddilliol)**

| | | |
|---|---|---|
| A | Cyfanswm yr Angen am Dai (fel yr amlinellir yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd a fabwysiadwyd) | 4178 |
| B | Yr hyn a gwblhawyd ers y dyddiad cychwyn (safleoedd mawr a bychan) | 2256 |
| C | Angen Gweddilliol | 1922 |
| D | Angen dros 5 mlynedd | 2480[1] |
| E | Angen Blynyddol | 496 |
| F | Cyfanswm y Cyflenwad Tir 5 Mlynedd | 2233 |
| **G** | **Y Cyflenwad Tir mewn Blynyddoedd (F / E)** | **4.5** |

[1] Y dull o sefydlu'r angen dros 5 mlynedd ar gyfer cyfnod yr astudiaeth:

- Angen am Dai CDU 2001-2016 = 4178 annedd
- Llai'r tai a gwblhawyd rhwng 2001 a 2013 = 2256 annedd
- Yn rhoi'r Gofyn Gweddilliol rhwng 2013 a 2016 = 1922 annedd.
- Wrth i gyfnod yr astudiaeth ymestyn i 2018, ychwanegir angen dwy flynedd arall yn seiliedig ar yr angen blynyddol am dai o fewn y CDU. 4178 ÷ 15 = 279 annedd
- Cyfanswm am yr angen am y pum mlynedd 2013-2018 yw 1922 + 558 (2x279) = 2480 annedd

## 3.0 SYLWEBAETH

3.1 O ystyried bod Tabl 3 yn nodi cyflenwad tir sy’n llai na 5 mlynedd, mae’r rhan hon o’r adroddiad yn nodi’r camau y bwriedir eu dilyn i ymdrin â’r diffyg hwn.

3.2 Tra bod y Cyngor yn cydnabod y dylai’r dull gweddilliol barhau fel y prif ddull o gyfrifo’r cyflenwad tir, ystyrir y dylid cynnwys ffigyrau cyfraddau adeiladu’r gorffennol hefyd yn yr astudiaeth er dibenion cymharu. Dengys dull cyfraddau adeiladu’r gorffennol ffigwr sylweddol uwch o gyflenwad tir (sydd hefyd yn sylweddol uwch na chyflenwad tir 5 mlynedd).

**Tabl 4 - Cyfrifiad y Cyflenwad Tir 5 Mlynedd (Dull Cyfraddau Adeiladu'r Gorffennol)**

| | | |
|---|---|---|
| **A** | Cyfanswm y Tai a Gwblhawyd dros y 10 Mlynedd Flaenorol (1/4/03 – 31/3/13) | **1902** |
| **B** | Nifer y Tai a Gwblhawyd yn Flynyddol ar Gyfartaledd | **190** |
| **C** | Cyfanswm y Cyflenwad Tir 5 Mlynedd | **2233** |
| **D** | **Y Cyflenwad Tir mewn Blynyddoedd (C / B)** | **11.75** |

3.3 Tra bod y cyflenwad o dir ar gyfer tai yn Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd, yn seiliedig ar y dull gweddilliol, yn llai na 5 mlynedd, ni chreda’r ACLl bod prinder tir ar gyfer tai. Mae’r angen gweddilliol blynyddol am dai ar gyfer gweddill cyfnod y CDU yn afrealistig o uchel o’i gymharu â’r cyfraddau cwblhau blynyddol dros y deng mlynedd ddiwethaf. Dengys y siart isod sut mae’r gwir ddarpariaeth gronnus o dai newydd ers dyddiad sail y Cynllun Datblygu Unedol yn cysylltu â anghenion tai’r Cynllun.




3.4 Mae'n amlwg o'r siart nad yw cyfraddau adeiladu wedi codi gyfuwch â'r gyfradd ddisgwyliedig o ddatblygu. Mae'r unedau a'u cwblhawyd wedi gostwng hyd yn oed ymhellach oddi wrth gofynion y CDUG dros y blynyddoedd diwethaf. O gofio bod y CDU wedi'i fabwysiadu yn 2009, yn nhyb yr ACLI, mae'n amlwg bod y dirywiad yn yr economi wedi effeithio ar y diwydiant adeiladu tai a'r gyfradd adeiladu blynyddol.

3.5 O ganlyniad, er mwyn cyflawni cyflenwad pum mlynedd yn seiliedig ar y dull gweddilliol o gymharu, byddai angen i'r ACLI allu cyflawni cyfradd adeiladu blynyddol dros y pum mlynedd nesaf o 496 uned y flwyddyn. Mae hyn ddwywaith gymaint â'r gwir gyfradd cwblhau blynyddol cyfartalog am y deng mlynedd diwethaf (190 uned y flwyddyn) ac mae'n gyfradd adeiladu blynyddol nas cyflawnwyd erioed ers i'r Cyngor ddod i fodolaeth.

3.6 Dylid nodi hefyd os byddai'r ffigwr angen blynyddol a nodir yn y CDU (h.y. 279 uned y flwyddyn) wedi'i ddefnyddio er cymhariaeth yn yr Astudiaeth, byddai'r ffigwr am y cyflenwad tir yn sylweddol uwch na phum mlynedd (2233 / 279 = 8.0 mlynedd).

3.7 Mae yna ffactorau, o'u hystyried gyda'i gilydd, sydd wedi arwain at nifer cymharol uchel o unedau tai yn cael eu cynnwys fel unedau categori 3(i). Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys:

- *Materion economaidd* – Argaeledd morgeisi (ar gyfer eiddo ar y farchnad ac eiddo sydd â chydberchnogaeth), gallu prynwyr tai tro cyntaf i fforddio blaendaliadau ac amharodrwydd banciau i ariannu datblygiadau.
- *Math o ddatblygiad* – Mae'r canfyddiad cyffredinol bod yna orgyflenwad o fflatiau a bod llety o'r fath yn annhebygol o ddod yn eu blaen yn y tymor byr, er bod rhai eithriadau wedi'u hadnabod.
- *Materion isadeiledd* – Methiant rhai darparwyr isadeiledd i ddatrys materion capasiti sy'n effeithio ar argaeledd tymor byr tir ar gyfer tai. Byddai rhoi pwysau ar y darparwyr hyn i ddatrys y problemau yma yn dod â nifer fawr o unedau yn ôl i'r cyflenwad tir 5 mlynedd.

3.8 Fel arfer, cyflwynir ceisiadau ar gyfer safleoedd ar hap bob blwyddyn a fydd yn ychwanegu safleoedd heb eu hadnabod yn flaenorol at y cyflenwad. Bydd y Cyngor hefyd yn parhau i gadw mewn cysylltiad gyda pherchnogion a datblygwyr safleoedd wedi'u hadnabod i sicrhau bod rhagolygon cwblhau'r gwaith, ynghyd â'r modd mae safleoedd wedi'i categoreiddio, mor ystyrlon â phosib.

3.9 Mae gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (gyda Chyngor Sir Ynys Môn) yn bwrw ymlaen. Mae'r Hoff Strategaeth, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2013, yn nodi gofyn tai o 286 o dai y flwyddyn ar gyfer ardal ACLl Gwynedd. Mae'r Cynllun Adneuo i fod i gael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2015 a'r CDLl ar y Cyd i gael ei fabwysiadu yn 2016. Bydd rhaid profi bod gwir fodd datblygu'r safleoedd a nodir yn y CDLl ar y Cyd.

## 4.0 DATA MONITRO

4.1 Mae NCT 1 yn ei wneud yn ofynnol i'r adroddiad JHLAS ddarparu gwybodaeth ychwanegol ar ddatblygiad tir ar gyfer tai gan ymdrin â defnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen, defnyddio safleoedd sy'n agored i gyfyngiadau risg llifogydd ynghyd a'r math o dai a ddatblygir (h.y. tai, fflatiau, eraill). Gweler y data isod.

## Tabl 5 – Ailddefnyddio Tir a Ddatblygwyd o'r blaen (safleoedd mawr)

| Nifer a chanran y cartrefi yn ôl categori a math o dir | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | Cyflenwad 5 mlynedd | | | | Categorïau 3i a 3ii | | | | Unedau a gwblhawyd 2012-13 | | | |
| | Tir Glas | | Tir Llwyd | | Tir Glas | | Tir Llwyd | | Tir Glas | | Tir Llwyd | |
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| 2011 | 1182 | 68 | 552 | 32 | 757 | 79 | 197 | 21 | 77 | 80 | 19 | 20 |
| 2012 | 1111 | 62 | 694 | 38 | 652 | 74 | 225 | 26 | 27 | 57 | 20 | 43 |
| 2013 | 1369 | 76 | 443 | 24 | 723 | 85 | 126 | 15 | 46 | 50 | 46 | 50 |
| 2014 | | | | | | | | | | | | |
| 2015 | | | | | | | | | | | | |
| 2016 | | | | | | | | | | | | |

## Tabl 6 – Safleoedd sy'n destun cyfyngiadau risg llifogydd (safleoedd mawr)

| Nifer a chanran y cartrefi yn ôl categori a math y tir | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | Cyflenwad 5 mlynedd | | | | Categorïau 3i a 3 ii | | | | Unedau a gwblhawyd 2012-13 | | | |
| | C1 | | C2 | | C1 | | C2 | | C1 | | C2 | |
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| 2011 | 52 | 3 | 29 | 2 | 26 | 3 | 52 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 2012 | 77 | 4 | 3 | 0.2 | 6 | 0.7 | 27 | 3 | 2 | 4 | 0 | 0 |
| 2013 | 72 | 4 | 103 | 6 | 63 | 7 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| 2014 | | | | | | | | | | | | |
| 2015 | | | | | | | | | | | | |
| 2016 | | | | | | | | | | | | |

## Tabl 7 – Tai a Gwblhawyd yn ôl Math o Dŷ – 1 Ebrill 2012 hyd at 31 Mawrth 2013

- 118 (69.0%) o dai wedi'u cwblhau
- 23 (13.5%) o fflatiau wedi'u cwblhau
- 30 (17.5%) eraill (e.e. byngalos) wedi'u cwblhau

# Atodiad 1 – Atodlenni Safle

## ATODIAD 1 / APPENDIX 1

### Safleoedd Sector Preifat / Private Sector Sites

| RHIF / NO | JHLAS | RHIF CYF ACLI / LPA REF NO | CYFEIRIAD / ADDRESS | Unedau a Adeiladwyd Ers Astudiaeth Ddiwethaf / Units Built since last survey | Cyfanswm Unedau / Total Units Capacity | Unedau sydd ar ol / Units Rmng | He sydd ar ol / Ha Rmng | W/D / U/C | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2* | 3(i) | 3(ii) | STATWS / STATUS |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Abermaw (00) | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 1 | 651 | C11/0147/00/LL | TIR GER / LAND NEAR ORIELTON, FFORDD PANORAMA ROAD ( SWN Y DAIL ) | 2 | 25 | 16 | 2 | 1 | 0 | 3 | 4 | 4 | 4 | 0 | 0 | 0 | L |
| 2 | 743 | 5/51/137 | PROMENADE | 0 | 26 | 26 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 26 | 0 | L |
| 3 | 2399 | C07M/0161/00/LL | TIR GER / LAND NEAR CRAIG FACH, CHURCH STREET | 0 | 14 | 14 | 0.21 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 14 | 0 | L |
| 4 | 2488 | C07M/0203/00/LL | CYN DEPO RHEILFFORDD / FORMER RAIL DEPOT, MARINE ROAD | 0 | 7 | 7 | 0.08 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 4 | 0 | 0 | 0 | L |
| Arthog (04) | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 5 | 1669 | C04M/0072/01/LL | LLEINIAU / PLOTS 15-23 HEOL SEITHENDRE, FAIRBOURNE | 0 | 9 | 5 | 0.29 | 0 | 0 | 2 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| Bangor (11) | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 6 | 4 | 3/11/722B | 30 - 32 FFORDD / HOLYHEAD ROAD | 0 | 8 | 8 | 0.09 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 8 | 0 | L |
| 7 | 1192 | C03A/0717/11/LL | POPLARS 27/ 29 FFORDD Y COLEG / COLLEGE ROAD | 0 | 6 | 6 | 0.1 | 6 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| 8 | 1359 | GWYN UDP | PEN Y FRIDD | 0 | 330 | 330 | 11 | 0 | 0 | 0 | 60 | 70 | 70 | 0 | 130 | 0 | L |
| 9 | 1932 | C06A/0089/11/LL | NEUADD DEINIOL A WAYSIDE, FFORDD CAERGYBI HOLYHEAD ROAD | 0 | 24 | 24 | 0.11 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 24 | 0 | L |
| 10 | 2051 | C07A/0105/11/AM C07A/0755/11/MG | SAFLE / SITE AT ADEILAD VICTORIA BUILDING | 0 | 10 | 10 | 0.11 | 0 | 0 | 10 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| 12 | 2774 | C11/0112/11/LL | HAFOD ELFYN A BRYN ADDA | 24 | 42 | 18 | 2.3 | 2 | 16 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| 13 | 2227 | C06A/0727/11/LL | CYFFORDD FFORDD GARTH/STRYD DEON / JUNCTION OF GARTH AND DEAN STREET | 0 | 52 | 52 | 0.13 | 0 | 0 | 52 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| 14 | 2364 | C08A/0108/11/LL | BANGOR CITY SOCIAL CLUB, FFORDD DEINIOL ROAD | 0 | 49 | 49 | 0.19 | 0 | 0 | 49 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| 15 | 2380 | C07A/0627/11/LL | CLWB PELDROED BANGOR FOOTBALL CLUB, FFORDD DEINIOL ROAD | 0 | 25 | 25 | 0.16 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 25 | 0 | L |

| RHIF / NO | JHLAS | RHIF CYF ACLI / LPA REF NO | CYFEIRIAD / ADDRESS | Unedau a Adeiladwyd Ers Astudiaeth Ddiwethaf / Units Built since last survey | Cyfanswm Unedau / Total Units Capacity | Unedau sydd ar ol / Units Rmng | He sydd ar ol / Ha Rmng | W/D / U/C | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2* | 3(i) | 3(ii) | STATWS / STATUS |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 16 | 2462 | C08A/0626/11/LL | ELIAS GARAGE, 347 STRYD FAWR / HIGH STREET | 0 | 12 | 12 | 0.04 | 0 | 0 | 6 | 6 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| 125 | 3672 | C12/1504/11/LL | 147-149 STRYD FAWR / HIGH STREET | 0 | 11 | 11 | 0.04 | 0 | 0 | 11 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | N |
| 17 | 2754 | C09A/0410/11/LL | DICKES BOAT YARD,FFORDD GARTH ROAD | 22 | 72 | 50 | 0.69 | 4 | 23 | 23 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| | | | **Bethesda (13)** | | | | | | | | | | | | | | |
| 18 | 24 | 3/13/130A | O.S 8361,8958,8650, BRYN CASEG | 0 | 22 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| 126 | 3598 | C10A/0206/13/AM | GRAY GARAGE, LON NEWYDD | 0 | 8 | 8 | 0.28 | 0 | 0 | 4 | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | N |
| 19 | 1365 | GWYN UDP | TIR GER / LAND NEAR MAES COETMOR | 0 | 60 | 60 | 2 | 0 | 0 | 0 | 10 | 20 | 20 | 0 | 10 | 0 | L |
| | | | **Bontnewydd (19)** | | | | | | | | | | | | | | |
| 20 | 2478 | C08A/0287/19/LL | LLAIN O DIR I FFWRDD O LON / PLOT OF LAND OFF LON CEFNWERTHYD | 0 | 26 | 26 | 0.87 | 0 | 0 | 12 | 14 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| | | | **Botwnnog (32)** | | | | | | | | | | | | | | |
| 21 | 1330 | C02D/0322/32/LL | TIR GER / LAND ADJ TO B4413 | 0 | 5 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | L |
| | | | **Caernarfon (14)** | | | | | | | | | | | | | | |
| 22 | 1371 | GWYN UDP | TIR GER / LAND NEAR GLAN PERIS | 0 | 114 | 114 | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 30 | 30 | 0 | 54 | 0 | L |
| 23 | 1732 | C09A/0411/14/LL | TIR GER MYNWENT LLANPEBLIG / LAND NEAR LLANPEBLIG CEMETERY | 0 | 136 | 136 | 4 | 0 | 10 | 20 | 30 | 30 | 30 | 0 | 16 | 0 | N |
| 25 | 2463 | C09A/0374/14/LL | LLAIN O DIR GER / PLOT OF LAND NEAR MOEL EILIO, Y HENDRE | 3 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | C |
| 26 | 2498 | C09A/0108/14/LL | 1, STRYD Y FARCHNAD | 0 | 6 | 6 | 0.02 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 | 0 | 0 | 0 | L |
| | | | **Clynnog (34)** | | | | | | | | | | | | | | |
| 28 | 1376 | GWYN UDP | TIR AR / LAND AT TAI LLEUAR, PONTLLYFNI | 0 | 6 | 6 | 0.3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 | 0 | 0 | 0 | L |
| | | | **Criccieth (35)** | | | | | | | | | | | | | | |
| 29 | 224 | 2/5/143A | YSTAD GORSEDDFA ESTATE | 0 | 13 | 1 | 0.1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | L |
| 30 | 225 | 2/15/264B | YSTAD WERN Y WYLAN ESTATE | 0 | 9 | 1 | 0.1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| 31 | 2205 | GWYN UDP | GER / NEAR NORTH TERRACE | 0 | 35 | 35 | 1 | 0 | 0 | 0 | 10 | 12 | 13 | 0 | 0 | 0 | L |

| RHIF / NO | JHLAS | RHIF CYF ACLl / LPA REF NO | CYFEIRIAD / ADDRESS | Unedau a Adeiladwyd Ers Astudiaeth Ddiwethaf / Units Built since last survey | Cyfanswm Unedau / Total Units Capacity | Unedau sydd ar ol / Units Rmng | He sydd ar ol / Ha Rmng | W/D / U/C | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2* | 3(i) | 3(ii) | STATWS / STATUS |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 33 | 2528 | C08D/0478/355/AM - C13//0028/35/AM | TIR GER / LAND NEAR GWESTY GEORGE IV HOTEL, STRYD FAWR/HIGH STREET | 0 | 37 | 37 | 0.41 | 0 | 0 | 0 | 0 | 20 | 17 | 0 | 0 | 0 | L |
| | | | Dolbenmaen (36) | | | | | | | | | | | | | | |
| 34 | 228 | C10D/0162/36/LL | CAE / FIELD 6775 (HENDREGADREDD), PENTREFELIN | 0 | 6 | 1 | 0.01 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| | | | Ffestiniog (03) | | | | | | | | | | | | | | |
| 35 | 1966 | GWYN UDP | GWYLFA GARAGE, FFORDD MANOD ROAD,BLAENAU FFESTINIOG | 0 | 5 | 5 | 0.1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 | 0 | L |
| 36 | 2206 | GWYN UDP | TIR GER / LAND NEAR CAE CLYD, BLAENAU FFESTINIOG | 0 | 17 | 17 | 1 | 0 | 0 | 0 | 3 | 0 | 5 | 0 | 9 | 0 | L |
| | | | Llanaelhaearn (37) | | | | | | | | | | | | | | |
| 37 | 2402 | C10D/0388/37/MG | RHAN O CAE 5993 / PART OF LAND 5933 GER/NEAR LLWYNAETHREN, TREFOR | 1 | 6 | 3 | 0.1 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| | | | Llanberis (15) | | | | | | | | | | | | | | |
| 38 | 2790 | C11/1103/15/AM | TIR GER / LAND NEAR TY DU ROAD | 0 | 11 | 11 | 0.69 | 0 | 0 | 5 | 6 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | N |
| 39 | 1374 | GWYN UDP | TIR GER / LAND NEAR GWESTY VICTORIA HOTEL | 0 | 15 | 15 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 7 | 8 | 0 | 0 | 0 | L |
| | | | Llanddeiniolen (18) | | | | | | | | | | | | | | |
| 40 | 1387 | GWYN UDP | BRO EGLWYS, SARON, BETHEL | 0 | 24 | 24 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 24 | 0 | L |
| 41 | 1381 | GWYN UDP | TIR GER YR YSGOL GYNRADD / LAND NEAR PRIMARY SCHOOL, DEINIOLEN | 0 | 30 | 30 | 1 | 0 | 0 | 0 | 5 | 5 | 5 | 0 | 15 | 0 | L |
| 42 | 1382 | GWYN UDP | CAPEL MAES Y DREF CHAPEL, DEINIOLEN | 0 | 12 | 12 | 0.7 | 0 | 0 | 0 | 0 | 6 | 6 | 0 | 0 | 0 | L |
| 43 | 76 | 3/18/202J | TIR TU CEFN I / LAND TO THE REAR OF BRO EGLWYS, BETHEL | 0 | 50 | 14 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 14 | 0 | L |
| 44 | 1720 | C08A/0187/18/AM C11/0485/18/MG | THE OLD BOWLING GREEN / CAE PENFRIDD, DEINIOLEN | 8 | 8 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | C |
| 46 | 2539 | C05A/0292/18/AM | INTERNATIONAL SAFETY COMPONENTS, RHIW GOCH, DEINIOLEN | 0 | 15 | 15 | 1.1 | 0 | 0 | 0 | 5 | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 | L |
| | | | Llandwrog (17) | | | | | | | | | | | | | | |

| RHIF / NO | JHLAS | RHIF CYF ACLI / LPA REF NO | CYFEIRIAD / ADDRESS | Unedau a Adeiladwyd Ers Astudiaeth Ddiwethaf / Units Built since last survey | Cyfanswm Unedau / Total Units Capacity | Unedau sydd ar ol / Units Rmng | He sydd ar ol / Ha Rmng | W/D / U/C | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2* | 3(i) | 3(ii) | STATWS / STATUS |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 47 | 2502 | GWYN UDP | TIR GER / LAND NEAR BRYN LLAN (C09A/0245/17/AM) | 0 | 9 | 9 | 1 | 0 | 0 | 2 | 3 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | L |
| | | | Llandygai (16) | | | | | | | | | | | | | | |
| 48 | 2204 | C09A/0518/16/AM | GER / NEAR PENTWMPATH | 0 | 15 | 15 | 0.63 | 0 | 0 | 0 | 5 | 10 | 0 | 0 | 0 | 0 | N |
| | | | Llanengan (39) | | | | | | | | | | | | | | |
| 49 | 240 | C05D/0220/39/LL – 9403207FL | TIR GER / LAND NEAR BRYN HEDD, MYNYTHO | 0 | 6 | 2 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| 50 | 2428 | C09D/0288/39/MG C08D/0112/39/AM | RHAN O CAE 3910 GER EGLWYS ST ENGAN / PART OF FIELD 3910 NEAR ST | 0 | 6 | 6 | 0.2 | 0 | 1 | 2 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| 51 | 2497 | C08D/0436/39/LL | ABERSOCH POWER BOAT CLUB,ABERSOCH | 0 | 9 | 9 | 0.2 | 0 | 0 | 3 | 3 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| | | | Llanllechid (21) | | | | | | | | | | | | | | |
| 52 | 2477 | C10A/0040/21/MG C09A/0067/13/AM C11/0847/21/MG | LLAIN O DIR CYFAGOS I / PLOT OF LAND NEAR BRON ARFON (LLWYN BEDW) | 2 | 13 | 7 | 0.45 | 0 | 0 | 4 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| | | | Llanllyfni (22) | | | | | | | | | | | | | | |
| 53 | 1379 | GWYN UDP | TIR GER CAE PELDROED / LAND NEAR FOOTBALL GROUND, PENYGROES | 0 | 104 | 104 | 3.1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | 10 | 0 | 84 | 0 | L |
| 54 | 1380 | GWYN UDP | TIR GER / LAND NEAR BRO LLWYDU, PENYGROES | 0 | 12 | 12 | 0.2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 6 | 6 | 0 | 0 | 0 | L |
| 55 | 1386 | GWYN UDP | TIR GER / LAND NEAR HEN DOMEN,TALYSARN | 0 | 36 | 36 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | 10 | 0 | 16 | 0 | L |
| 56 | 2211 | C12/1123/22/LL | TU CEFN / BEHIND CAE CAPEL BACH, | 0 | 6 | 6 | 0.7 | 2 | 0 | 0 | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | N |
| | | | Llannor (40) | | | | | | | | | | | | | | |
| 57 | 2214 | C08D/0257/40/AM | TIR GER / LAND NEAR STAD DDIWYDIANOL, Y FFOR | 0 | 9 | 9 | 0.5 | 0 | 0 | 0 | 4 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | N |
| 58 | 2250 | GWYN UDP | GER / NEAR TY GWYN, ABERERCH | 0 | 9 | 9 | 0.5 | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 | 3 | 0 | 0 | 0 | L |
| 59 | 2251 | GWYN UDP | GER / NEAR HAFOD LON, Y FFOR | 0 | 44 | 44 | 1.2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | 10 | 0 | 24 | 0 | L |
| | | | Llanrug (23) | | | | | | | | | | | | | | |
| 60 | 144 | C98A/0125/23/LL – 3/23/265B-Q | YSTAD NANT Y GLYN ESTATE | 0 | 54 | 4 | 0.1 | 0 | 0 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |

| RHIF<br>NO | JHLAS | RHIF CYF ACLI<br>LPA REF NO | CYFEIRIAD<br>ADDRESS | Unedau a Adeiladwyd Ers Astudiaeth Ddiwethaf<br>Units Built since last survey | Cyfanswm Unedau<br>Total Units Capacity | Unedau sydd ar ol<br>Units Rmng | He sydd ar ol<br>Ha Rmng | W/D<br>U/C | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2* | 3(i) | 3(ii) | STATWS<br>STATUS |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 61 | 1222 | C05A/0051/23/LL – C01A/0560/23/AM | LLAIN O DIR TY CAPEL / LAND AT TY CAPEL, CWM Y GLO | 0 | 6 | 6 | 0.3 | 2 | 0 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| 62 | 1385 | GWYN UDP | TIR GYFERBYN / LAND OPPOSITE TREFLAN | 0 | 6 | 6 | 1 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 4 | 0 | L |
| 63 | 2216 | C08A/0122/23/LL C06A/0114/23/AM | CEIR CWM, CWM Y GLO | 0 | 8 | 8 | 1 | 0 | 3 | 3 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| 127 | 3602 | C12/0891/23/LL | CAE'R EGLWYS FFORDD LLANBERIS ROAD | 0 | 10 | 10 | 0.39 | 0 | 0 | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | N |
| 128 | 2567 | C09A/0361/23/AM | LLAIN O DIR CYFAGOS I / PLOT OF LAND NEAR PARC ISAF | 0 | 6 | 6 | 0.19 | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| 64 | 2374 | C09A/0026/23/MG C08A/0398/23/AM C12/1277/23/LL | PEN CAE, FFORDD LLANBERIS ROAD | 0 | 13 | 8 | 1.2 | 1 | 0 | 4 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| 65 | 2776 | C11/0959/23/LL | HEN YSGOL / OLD SCHOOL GLAN MOELYN | 7 | 7 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | C |
| | | | | | | | Llanwnda (24) | | | | | | | | | | |
| 66 | 772 | C10A/0426/24/LL | TIR GER / LAND ADJ TO BODAWEN,RHOSTRYFAN | 0 | 18 | 16 | 1.5 | 2 | 0 | 4 | 4 | 4 | 2 | 0 | 0 | 0 | L |
| 67 | 1395 | GWYN UDP | TIR GER / LAND NEAR GWELFOR,RHOSGADFAN | 0 | 14 | 14 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 7 | 7 | 0 | 0 | 0 | L |
| 68 | 2114 | C09A/0532/24/LL - C08A/0568/24/LL | LLAIN O DIR I FFWRDD O A487 / PLOT OF LAND OFF THE A487 AT DINAS | 0 | 24 | 24 | 1.4 | 0 | 0 | 0 | 8 | 8 | 8 | 0 | 0 | 0 | L |
| | | | | | | | Llanystumdwy (41) | | | | | | | | | | |
| 70 | 1364 | GWYN UDP | TIR GER / LAND NEAR BRYN HYFRYD, CHWILOG | 0 | 20 | 20 | 1 | 0 | 0 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 15 | 0 | L |
| 71 | 1391 | GWYN UDP | TIR TU CEFN I / LAND TO THE REAR OF MADRYN, CHWILOG | 0 | 14 | 14 | 0.7 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 14 | 0 | L |
| 72 | 1392 | GWYN UDP | TIR GER / LAND AT STAD TY'N RHOS, CHWILOG | 0 | 21 | 21 | 1.2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 21 | 0 | L |
| | | | | | | | Nefyn (42) | | | | | | | | | | |
| 73 | 283 | C10D/0358/42/MG C07D/0117/42/AM | CAE / FIELD 3751, GROESFFORDD (BORTH WERN), EDERN | 0 | 11 | 11 | 0.47 | 2 | 3 | 3 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| 74 | 285 | C07D/0699/42/LL | YSTAD BRO GWYLWYR ESTATE | 1 | 35 | 1 | 0.1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| 75 | 286 | C01D/0164/42/LL - 2/22/102A-Z | YSTAD HOLBORN ESTATE | 1 | 68 | 2 | 0.1 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| 76 | 1398 | GWYN UDP | TIR GER / LAND NEAR STAD HOLBORN ESTATE | 0 | 35 | 35 | 1.2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | 10 | 0 | 15 | 0 | L |
| 77 | 1916 | C05D/0192/42/LL | LLEINIAU 5 - 12 MAES TERFYN, MORFA NEFYN | 1 | 8 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | C |

| RHIF / NO | JHLAS | RHIF CYF ACLI / LPA REF NO | CYFEIRIAD / ADDRESS | Unedau a Adeiladwyd Ers Astudiaeth Ddiwethaf / Units Built since last survey | Cyfanswm Unedau / Total Units Capacity | Unedau sydd ar ol / Units Rmng | He sydd ar ol / Ha Rmng | W/D / U/C | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2* | 3(i) | 3(ii) | STATWS / STATUS |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 78 | 2018 | C07D/0325/42/MG C06D/0025/42/AM C13/0121/42/LL | RHAN O CAEAU / PART OF FIELDS 1220_1413, LON ISAF, MORFA NEFYN | 0 | 10 | 5 | 0.15 | 1 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| 129 | 3630 | C12/0892/42/RC - C12/1498/42/RC | TYWOD ARIAN APARTMENTS, MORFA NEFYN | 15 | 15 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | C |
| 79 | 2021 | C04D/0106/42/LL | SAFLE YN NHHEFN / LAND AT THE REAR OF TY CERRIG, STRYD FFYNNON | 0 | 5 | 1 | 0.1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| 80 | 2495 | C04D/0722/42/LL | CAPEL SEION, STRYD Y PLAS | 0 | 7 | 7 | 0 | 7 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| **Penrhyndeudraeth (08)** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 81 | 1405 | GWYN UDP | TIR GER / LAND NEAR CANOL CAE | 0 | 39 | 39 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 39 | 0 | L |
| 130 | 3666 | C10M/0101/08/AM | TIR GER / LAND NEAR PEN Y BRYN | 0 | 8 | 8 | 0.43 | 0 | 0 | 4 | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | N |
| 82 | 2212 | GWYN UDP | TIR GER / LAND NEAR MAES PARCIO | 0 | 27 | 27 | 1.1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 27 | 0 | L |
| **Pentir (25)** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 83 | 178 | 3/25/195AB | BREWERY FIELD - ( COED Y MAES ), PENRHOSGARNEDD | 0 | 20 | 2 | 0.1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | L |
| 84 | 179 | C06A/0663/25/LL - 3/25/206CDF | TIR GER / LAND AT Y GARNEDD, PENRHOSGARNEDD | 0 | 5 | 1 | 0.1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| 86 | 1361 | GWYN UDP | TIR TU CEFN I / LAND TO THE REAR OF FFORDD CYNAN, PENRHOSGARNEDD | 0 | 270 | 270 | 9 | 0 | 0 | 40 | 50 | 50 | 50 | 0 | 80 | 0 | L |
| **Porthmadog (44)** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 87 | 364 | 2/24/91A-M | YSTAD TU HWNT I'R BWLCH ESTATE ( AWEL Y GRUG ) | 0 | 21 | 1 | 0.1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| 88 | 1640 | C04D/0041/44/LL | AWEL Y GRUG | 0 | 10 | 1 | 0.1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| 89 | 1969 | C07D/0707/44/LL - C06D/0160/44/LL | SNOWDON MILL, HEOL YR WYDDFA | 0 | 24 | 24 | 0 | 24 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| 90 | 2278 | C04D/0434/44/LL | HEN SAFLE HEWDEN HIRE OLD SITE | 0 | 8 | 8 | 0.09 | 0 | 0 | 0 | 8 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| 131 | 3595 | C11/0755/44/AM | GARDEN CRAFT, STRYD FAWR / HIGH STREET, TREMADOG | 0 | 9 | 9 | 0.23 | 0 | 0 | 5 | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | N |
| 132 | 3654 | C11/0871/44/AM | COMMERCIAL AND NEWELLS BAKERIES, LON BOPTY | 0 | 7 | 7 | 0.08 | 0 | 0 | 4 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | N |

| RHIF<br>NO | JHLAS | RHIF CYF ACLI<br>LPA REF NO | CYFEIRIAD<br>ADDRESS | Unedau a Adeiladwyd Ers Astudiaeth Ddiwethaf<br>Units Built since last survey | Cyfanswm Unedau<br>Total Units Capacity | Unedau sydd ar ol<br>Units Rmng | He sydd ar ol<br>Ha Rmng | W/D<br>U/C | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2* | 3(i) | 3(ii) | STATWS<br>STATUS |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 91 | 2334 | C05D/0444/44/AM - C11/0862/44/AM | TIR GER / LAND NEAR MAES CHWARAE, MORFA BYCHAN | 0 | 9 | 9 | 0.38 | 0 | 0 | 2 | 2 | 2 | 3 | 0 | 0 | 0 | L |
| 92 | 2518 | C05D/0645/44/LL | CAPEL GARTH, STRYD Y | 0 | 8 | 8 | 0.06 | 0 | 0 | 0 | 8 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| | | | | | | | Pwllheli (45) | | | | | | | | | | |
| 93 | 387 | C11/0854/45/LL - C06D/0447/45/LL | YSTAD INNES ESTATE, LON GOLFF | 1 | 12 | 1 | 0.1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| 94 | 1400 | GWYN UDP | TIR GER / LAND NEAR CAE DEINIO | 0 | 16 | 16 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 8 | 8 | 0 | 0 | 0 | L |
| 95 | 2016 | C06D/0376/45/LL | SAFLE PAFILIWN, MARIAN Y MOR | 0 | 62 | 62 | 0.4 | 0 | 0 | 25 | 0 | 0 | 0 | 0 | 37 | 0 | L |
| 96 | 2213 | GWYN UDP | TIR GER GAREJ / LAND NEAR GLANDON GARAGE | 0 | 24 | 24 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 12 | 12 | 0 | 0 | 0 | L |
| 97 | 2322 | C07D/0189/45/LL | BON MARCHE, SGWAR YR ORSAF | 0 | 12 | 12 | 0.03 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 12 | 0 | L |
| 98 | 2365 | C08D/0351/45/LL | CHURCH HALL, LLEINIAU | 0 | 5 | 5 | 0.02 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| 99 | 2429 | C11/0378/45/LL - C05D/0417/45/AM | TIR GER / LAND NEAR HEOL HAMDDEN | 0 | 8 | 8 | 0 | 8 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| 100 | 2597 | C09D/0195/45/LL | ADEILADAU MADOG BUILDINGS, LON DYWOD | 0 | 5 | 5 | 0.02 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 | 0 | L |
| | | | | | | | Tudweiliog (46) | | | | | | | | | | |
| 101 | 361 | C08D/0368/46/LL - 2/26/57A-J C12/1364/46/MG | CAER ODYN (YSTAD Y LION ESTATE) | 1 | 11 | 3 | 0.2 | 1 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| 102 | 2372 | C09D/0420/46/MG | RHAN O CAE / PART OF | 0 | 8 | 8 | 0.19 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 8 | 0 | L |
| | | | | | | | Tywyn (09) | | | | | | | | | | |
| 103 | 667 | 5/79/134 | BRYN GARREG LLWYD (GARREG LWYD) | 0 | 23 | 14 | 0.83 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 2 | 0 | 9 | 0 | L |
| 104 | 669 | C02M/0182/09/LL C00M/0208/09/LL | TIR GER / LAND NEAR CORBETT AVENUE | 0 | 10 | 4 | 0.1 | 0 | 0 | 2 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| 105 | 1497 | C03M/0080/09/LL | GLANMOR HOTEL, MARINE PARADE | 0 | 12 | 12 | 0 | 12 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| 106 | 2142 | C06M/0069/09/LL | TIR GER / LAND NEAR GLAN Y MOR, MARINE PARADE (SWN Y TONNAU) | 0 | 33 | 24 | 0.98 | 1 | 2 | 2 | 4 | 5 | 4 | 0 | 6 | 0 | L |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | Waunfawr (26) | | | | | | | | | | |
| 108 | 1378 | GWYN UDP | TIR GER / LAND NEAR CAEATHRO BACH, CAEATHRO | 0 | 23 | 23 | 1 | 0 | 0 | 6 | 6 | 0 | 0 | 0 | 11 | 0 | L |
| 109 | 1729 | C05A/0153/26/AM | MODURDY WHITEWAYS GARAGE | 0 | 6 | 6 | 0.18 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 | 0 | 0 | 0 | L |
| 110 | 1962 | C06A/0058/26/LL | CAPEL BETHEL | 0 | 5 | 3 | 0.09 | 0 | 0 | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| | | | | | | | Y Felinheli (20) | | | | | | | | | | |

| RHIF / NO | JHLAS | RHIF CYF ACLI / LPA REF NO | CYFEIRIAD / ADDRESS | Unedau a Adeiladwyd Ers Astudiaeth Ddiwethaf / Units Built since last survey | Cyfanswm Unedau / Total Units Capacity | Unedau sydd ar ol / Units Rmng | He sydd ar ol / Ha Rmng | W/D / U/C | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2* | 3(i) | 3(ii) | STATWS / STATUS |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 111 | 1368 | GWYN UDP | TIR GER / LAND NEAR TYDDYN PERTHI | 0 | 16 | 16 | 1 | 0 | 0 | 0 | 5 | 5 | 6 | 0 | 0 | 0 | L |
| 112 | 1428 | C05A/0750/20/LL - C02A/0568/20/LL | HARBWR FELINHELI HARBOUR | 0 | 22 | 3 | 0.2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 0 | L |
| 113 | 1730 | C05A/0152/20/LL | GWESTY PLAS DINORWIC HOTEL | 0 | 8 | 8 | 0.2 | 0 | 0 | 2 | 3 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| 114 | 2060 | C06A/0752/20/LL | BODARWY | 0 | 18 | 18 | 0.12 | 0 | 0 | 6 | 12 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| 116 | 2203 | C12/0144/20/LL | GER / NEAR DRWS Y COED | 3 | 54 | 51 | 2.1 | 26 | 12 | 13 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | N |
| 117 | 2517 | C09A/0424/20/LL | LLAIN O DIR DROS FFORDD I / PLOT OF LAND NEAR TY HANNER FFORDD | 0 | 7 | 7 | 0.26 | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 | 1 | 0 | 0 | 0 | L |
| **Safleoedd Sector Cyhoeddus / Public Sector Sites** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Bangor (11) | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 118 | 1362 | GWYN UDP | EITHINOG | 0 | 39 | 39 | 5 | 0 | 0 | 0 | 10 | 10 | 19 | 0 | 0 | 0 | L |
| Caernarfon (14) | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 119 | 1590 | GWYN UDP | FORMER LOWER SCHOOL, SYR HUW OWEN | 0 | 10 | 10 | 0.5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | L |
| 120 | 1373 | GWYN UDP | LAND NEAR FRONDEG, MAESINCLA | 0 | 29 | 29 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 | 10 | 0 | 14 | 0 | L |
| Llandwrog (17) | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 121 | 2209 | GWYN UDP | TIR GER YR YSGOL / LAND NEAR THE SCHOOL, GROESLON | 0 | 5 | 5 | 0.2 | 0 | 0 | 0 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| Ffestiniog (03) | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 122 | 2207 | GWYN UDP | TIR GER / LAND NEAR MAES Y PLAS, BLAENAU FFESTINIOG | 0 | 18 | 18 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 6 | 6 | 0 | 6 | 0 | L |
| Pwllheli (45) | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 123 | 1399 | GWYN UDP | TIR GER CAE HOCI / LAND NEAR HOCKEY FIELD | 0 | 14 | 14 | 0.5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 7 | 7 | 0 | 0 | 0 | L |
| 124 | 1402 | GWYN UDP | SAFLE YSBYTY / HOSPITAL SITE | 0 | 12 | 12 | 0.4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 12 | 0 | L |
| **Safleoedd Cymdeithas Tai – Cyhoeddus / Housing Association Sites – Public** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Pentir (25) | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 85 | 2544 | C09A/0610/25/LL | CAE GARNEDD, PENRHOSGARNEDD | 0 | 41 | 41 | 0.56 | 41 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |
| Tywyn (09) | | | | | | | | | | | | | | | | | |

| RHIF / NO | JHLAS | RHIF CYF ACLI / LPA REF NO | CYFEIRIAD / ADDRESS | Unedau a Adeiladwyd Ers Astudiaeth Ddiwethaf / Units Built since last survey | Cyfanswm Unedau / Total Units Capacity | Unedau sydd ar ol / Units Rmng | He sydd ar ol / Ha Rmng | W/D / U/C | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2* | 3(i) | 3(ii) | STATWS / STATUS |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 107 | 2450 | C08M/0079/09/AM C12/0974/09/LL | TIR GER / LAND NEAR PENDRE GARDENS, STRYD BROOKS STREET, | 0 | 17 | 17 | 0.39 | 0 | 0 | 17 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L |

## CRYNODEB / SUMMARY

| | Unedau a Adeiladwyd Ers Astudiaeth Ddiwethaf / Units Built since last survey | Cyfanswm Unedau / Total Units Capacity | Unedau sydd ar ol / Units Rmng | He sydd ar ol / Ha Rmng | W/D / U/C | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2* | 3(i) | 3(ii) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2013 | 92 | 3146 | 2661 | 96 | 155 | 73 | 378 | 352 | 432 | 422 | 0 | 838 | 11 |

## Atodiad 2 – Data Unedau wedi'i Cwblhau yn y Gorffennol

| Nifer y Tai a gwblhawyd ar: | | | |
|---|---|---|---|
| **Blwyddyn** | **Safleoedd Mawr** | **Safleoedd Bychan** | **Cyfanswm y tai a gwblhawyd** |
| 2003-05 (2 flynedd) | 285 | 217 | **502** |
| 2005-07 (2 flynedd) | 114 | 225 | **339** |
| 2007-08 | 131 | 119 | **250** |
| 2008-09 | 57 | 130 | **287** |
| 2009-10 | 77 | 72 | **149** |
| 2010-11 | 96 | 66 | **162** |
| 2011-12 | 47 | 74 | **121** |
| 2012-13 | 92 | 79 | **171** |

## Atodiad 3 – Data Cyflenwad Tir Blaenorol

| **Blwyddyn** | **Cyflenwad 5 mlynedd – Nifer o Gartrefi (Categorïau NCT 1)** | | | **Y Cyflenwad – mewn blynyddoedd** | **Y Cyflenwad ymhellach na 5 mlynedd - Nifer y cartrefi** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **1** | **2** | **2*** | | **3i** | **3ii** |
| **2009** | 8 | 647 | 0 | 6.32 | 357 | 154 |
| **2010** | 5 | 1412 | 0 | 5.13 | 1224 | 11 |
| **2011** | 10 | 1629 | 0 | 5.0 | 943 | 11 |
| **2012** | 83 | 1640 | 0 | 4.8 | 866 | 11 |
| **2013** | 73 | 1584 | 0 | 4.5 | 838 | 11 |

## Atodiad 4 – Argymhelliad yr Arolygydd

The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Adroddiad ar gyd-astudiaethau argaeledd tir ar gyfer tai

# Report on Joint Housing Land Availability Study

**gan P J Davies BSc (Hons) MA MRTPI**

**Arolygydd a benodir gan Weinidogion Cymru**

**by P J Davies BSc (Hons) MA MRTPI**

**an Inspector appointed by the Welsh Ministers**

**Dyddiad: 11/08/2014**

**Date: 11/08/2014**

**Cyfeirnod: JHLAS/13/Q6810/515957**
**Awdurdod Cynllunio Lleol: Cyngor Gwynedd**

- Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â Chydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai Cyngor Gwynedd 2013 (JHLAS).
- Amlinellir y materion sy'n destun anghytundeb yn Natganiad Tir Cyffredin (DTC) y JHLAS a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2014.

### Argymhelliad

1. Y dylid pennu ffigur cyflenwad tir JHLAS 2013 ar gyfer ardal Cyngor Gwynedd fel 4.5 mlynedd.

### Cyd-destun yr Argymhelliad

2. Mae'n ddyletswydd ar Awdurdodau Cynllunio Lleol i sicrhau bod digon o dir ar gael mewn gwirionedd, neu y bydd digon o dir ar gael, i ddarparu tir ar gyfer tai am 5 mlynedd[1]. Diben paratoi JHLAS yw:

    - Monitro'r ddarpariaeth ar gyfer tai y farchnad agored a thai fforddiadwy;
    - Darparu datganiad y cytunwyd arno ynghylch argaeledd tir preswyl at ddibenion cynllunio a rheoli datblygiadau; a
    - Nodi'r angen i weithredu mewn sefyllfaoedd lle gwelir bod y cyflenwad yn annigonol[2].

[1] Paragraff 9.2.3 PCC Argraffiad 7
[2] NCT 1: Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai (Mehefin 2006) paragraff 2.1

3. Sgôp yr adroddiad hwn yw argymell gwerth cyflenwad tir ar gyfer tai sy'n addas i ardal Cyngor Gwynedd, yn sgil y materion sy'n destun anghytundeb wrth gyfrifo ffigwr o'r fath a'r dystiolaeth sydd ar gael.

**Prif Faterion**

4. Mae cyfnod Cynllun Datblygu Unedol mabwysiedig Gwynedd (CDU) yn rhedeg o 2001 hyd 2016, ac yn dod i ben hanner ffordd drwy gyfnod astudiaeth y JHLAS hwn. O ganlyniad, cadarnha'r DTC fod aelodau'r Grŵp Astudiaethyn gytûn mai'r dull cyfrifo cywir yw'r Dull Gweddilliol fel yr amlinellir yn adran 7.5 NCT 1. Mae cytundeb ar y rhan fwyaf o'r safleoedd, fodd bynnag mae 4 safle'n destun anghytundeb. Felly, y prif fater ar ddyddiad sylfaenol yr astudiaeth, yw p'un a ddylid cyfrif fod y 4 safle sy'n destun anghytundeb yn cyfrannu at y cyflenwad tir pum mlynedd ai peidio.

**Rhesymau**

5. Dywed yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) y dylid derbyn nifer yr unedau yn y cyflenwad tir fel 2,233. Noda'r DTC fod Ffederasiwn Adeiladwyr Tai (HBF) yn dadlau yn erbyn cynnwys 193 o'r unedau hyn, sy'n arwain at gyflenwad y cytunwyd arno o 2,040 o unedau. Fodd bynnag, wrth graffu ar fanylion y safleoedd sy'n destun anghytundeb, gwelir bod yr anghytundeb yn ymwneud â 191 o unedau. Mae NCT 1 yn rhoi cyngor ar y meini prawf i'w defnyddio wrth ystyried gwir allu safleoedd i fod ar gael o fewn cyfnod pum mlynedd. Mae'r NCT hefyd yn rhoi cyngor ar safleoedd sydd wedi aros o fewn y cyflenwad tir am gyfnodau llawer hwy na phum mlynedd. Rwyf wedi ystyried y safleoedd sy'n destun anghytundeb yn unol â'r cyngor a geir yn y NCT ac yng Nghanllawiau LlC, ac ar sail y dystiolaeth sydd ar gael yn y DTC a'r atodiadau.

6. <u>Cyfeirnod Safle 1: Tir ger Orielton, Ffordd Panorama, Abermaw: (5 uned yn destun anghytundeb):</u> Mae'r safle hwn yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd. Mae cyfanswm o 16 uned i gael eu cwblhau ar y safle, ac un yn cael ei hadeiladu ar hyn o bryd. O'r 15 uned sy'n weddill, dymuna'r ACLl gynnwys hwy oll yn y cyflenwad tir pum mlynedd, ar sail cyflawni 2 uned ers y llynedd a chyflawni 4 uned yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â bwriad diweddaraf y datblygwr i gwblhau'r holl unedau o fewn y cyfnod astudiaeth. Dywed HBF fod cyfradd gyflawni'r ACLl yn rhy uchel, ac y dylid defnyddio rhagolwg o ddwy uned y flwyddyn ar y mwyaf. Byddai hyn yn rhoi cyfanswm o 10 uned yn y cyflenwad tir. Gan ein bod wedi gweld ei bod yn bosib cyflawni 4 uned ar y safle mewn blwyddyn, ac oherwydd fod y datblygwr ar hyn o bryd yn dweud y bydd yr holl unedau wedi'u cwblhau

erbyn diwedd cyfnod yr astudiaeth, ni welaf fod yna unrhyw reswm i beidio â chynnwys unrhyw un o'r unedau hyn yn y cyflenwad. Felly, rwyf o'r farn y dylid cynnwys y 5 uned sy'n destun anghytundeb yn y ffigwr cyflenwad tir pum mlynedd.

7. <u>Cyfeirnod Safle 8: Pen y Ffridd, Bangor: (120 uned yn destun anghytundeb):</u> Mae hwn yn safle sydd wedi'i ddynodi o fewn y CDU gyda lle i 330 o unedau. Mae'r ACLl yn rhagweld y bydd 200 o unedau'n cael eu cwblhau o fewn y cyfnod astudiaeth. Dadl HBF yw fod hyn yn seiliedig ar gyfradd gyflawni sy'n afreal o uchel, ac mai'r uchafswm realistig fyddai adeiladu 40 uned y flwyddyn ar gyfer dwy flynedd olaf y cyfnod astudiaeth. Mae'r ACLl wedi seilio'u rhagolygon ar fwriadau datblygwr sydd ar hyn o bryd yn ymgeisio am ganiatâd i'r safle; arweiniodd hyn at addasu'r rhagolygon o 245 uned i 200 uned. Nodaf fod cais wedi'i gyflwyno ym mis Awst 2013, fodd bynnag mae hyn yn fwy diweddar na dyddiad sail yr astudiaeth hon. Er gwaethaf hyn, mae gan ddatblygwyr ddiddordeb yn y safle, ac heb unrhyw wybodaeth benodol ynghylch pam nad oes modd cyflawni rhagolygon yr ACLl, ni welaf fod yna unrhyw reswm i beidio â chynnwys yr unedau hyn yn y cyflenwad tir. Felly, rwyf o'r farn y dylid cynnwys y 120 uned sy'n destun anghytundeb yn y ffigwr cyflenwad tir pum mlynedd.

8. <u>Cyfeirnod Safle 22: Tir ger Glan Peris, Caernarfon: (60 uned yn destun anghytundeb):</u> Dyma safle sydd wedi'i ddynodi o fewn y CDU a fabwysiadwyd. Honna HBF fod y safle wedi bod yn rhan o'r cyflenwad am yn hwy na phum mlynedd heb gael ei ddatblygu, ac felly'n diwallu'r telerau ym mharagraff 7.4.1 NCT 1 i'w ailddosbarthu i Gategori 3i. Fodd bynnag, cadarnha'r ACLl y cynhwyswyd y safle yn y cyflenwad am y tro cyntaf yn 2010 ar ôl mabwysiadu'r CDU yn 2009. Felly, nid yw'r safle yn cyflawni gofynion y ragdybiaeth i ailddosbarthu safleoedd. Heb unrhyw wybodaeth benodol ynghylch cyfyngiadau ar ddatblygu'r safle, ni welaf fod yna unrhyw reswm i beidio â chynnwys yr unedau hyn yn y cyflenwad tir. Felly, rwyf o'r farn y dylid cynnwys y 60 uned sy'n destun anghytundeb yn y ffigwr cyflenwad tir pum mlynedd.

9. <u>Cyfeirnod Safle 28: Tir yn Nhai Lleuar: (6 uned yn destun anghytundeb):</u> Mae'r safle hwn hefyd wedi'i ddynodi o fewn y CDU a fabwysiadwyd. Mae HBF yn herio ei gynnwys yn y cyflenwad tir ar y sail ei fod wedi aros yn y cyflenwad am fwy na phum mlynedd, a heb gael ei ddatblygu. Fodd bynnag, ceir cadarnhad gan yr ACLl i'r safle gael ei gynnwys gyntaf yn 2010. Felly nid yw'n diwallu telerau'r ragdybiaeth ym mharagraff 7.4.1 NCT 1 i'w ailddosbarthu i Gategori 3i. Nodaf yn unol â'r Profforma Safle perthnasol a gyflwynwyd gyda'r DTC, y byddai oddeutu 3 o'r unedau o fewn Parth Llifogydd C2. Byddai'n rhaid i unrhyw gais cynllunio gyfiawnhau'r datblygiad

arfaethedig yn sgil y profion a amlinellir yn adran 6.2 NCT 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd. Nid oes unrhyw aelod o'r Grŵp Astudiaeth wedi nodi materion gorlifdir fel cyfyngiad datblygu; rwyf felly wedi gweithredu ar y sail nad yw'r safle'n cael ei gyfyngu gan ei statws Parth C2 rhannol. Heb unrhyw wybodaeth benodol ynghylch cyfyngiadau ar ddatblygu'r safle, ni welaf fod yna unrhyw reswm i beidio â chynnwys yr unedau hyn. Felly, rwyf o'r farn y dylid cynnwys y 6 uned sy'n destun anghytundeb yn y ffigwr cyflenwad tir pum mlynedd.

10. Felly, am y rhesymau uchod, rwyf o'r farn fod ffigwr arfaethedig yr ACLl o 2,233 uned yn ffigwr cywir ar gyfer y cyflenwad tir pum mlynedd.

**Casgliad**

11. Ar sail y dadansoddiad uchod ac wrth ddefnyddio'r dull gweddilliol yn unol â pharagraff 7.5.2 NCT 1, casglaf mai 4.5 mlynedd yw'r cyflenwad tir ar gyfer tai yn ardal gynllunio Cyngor Gwynedd ar 1 Ebrill 2013.

*P J Davies*

**Arolygydd**